Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr

Gweithdrefn 01: 2026 Fersiwn 1.0
Daw i rym: 1 Medi 2026

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Dyddiad	Yn disodli	Disgrifiad o'r Newid
27 Awst 2026	2019 Fersiwn 1.4	Adolygiad llawn o'r drefn
1 Chwefror 2021	2019 Fersiwn 1.3	Mân newidiadau i deitlau swyddi
1 Chwefror 2021	2019 Fersiwn 1.2	Diwygiadau bach i amserlenni.
1 Ebrill 2020	2019 Fersiwn 1.1	Er mwyn cynyddu faint o staff all oruchwylio'r weithdrefn gwynion ffurfiol, mae'r Dirprwy Is-ganghellor wedi'i gynnwys yn y weithdrefn hon.

Perchennog y Ddogfen	Cymeradwywyd gan	Dyddiad Cymeradwyo	Amlder Adolygu
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd a'r Cofrestrydd Academaidd	Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd.	27 Awst 2026	Bob tair blynedd.

Sylwer: Dan amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd gall cyfrifoldebau a neilltuir i ysgolion, penaethiaid ysgol, swyddogion ysgol neu bwyllgorau ysgol yn y rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y coleg, pennaeth y coleg, swyddogion y coleg neu bwyllgorau'r coleg yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Perthynas rheoleiddiol: Fframwaith Ymarfer Da Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol; amodau cofrestru Medr (Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022); Deddf Cydraddoldeb 2010; Safonau'r Gymraeg.

Gall myfyrwyr ofyn am gynnal unrhyw gyfarfod neu ohebiaeth o dan y weithdrefn hon yn Gymraeg heb unrhyw gost. Cysylltwch â'r Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr studentcases@bangor.ac.uk i drefnu. (Gweler adran 2.5.)

This document is also available in English.

Cynnwys

RHAN A - Canllawiau i Fyfyrwyr i'r Weithdrefn Hon 4
Canllaw cyflym: yr hawliau, y camau a'r amserlenni ar yr olwg gyntaf 4
Eich hawliau allweddol drwy gydol y weithdrefn hon 5
Pwy all eich helpu chi? 5
RHAN B - Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr Llawn 7
1. Rhagarweiniad a chwmpas 7
1.1 Diben 7
1.2 Cwmpas 8
1.3 Diffiniadau 9
2. Egwyddorion cyffredinol 11
2.1 Tegwch gweithdrefnol 11
2.2 Cefnogaeth a Chynrychiolaeth 11
2.3 Amseroldeb 12
2.4 Addasiadau rhesymol 12
2.5 Y Gymraeg 13
2.6 Cyfrinachedd a diogelu data 13
3. Cyfrifoldebau 13

3.1 Senedd 13
3.2 Rheolwyr 13
3.3 Myfyrwyr 14
3.4 Canlyniadau Diffyg Cydymffurfio 14
4. Mathau o Gwynion 14
4.1 Pan fydd cwyn yn dod o dan un neu fwy o bolisïau 14
4.2 Pan dderbynnir cwynion lluosog gan fyfyriwr unigol 14
4.3 Cwynion Trydydd Parti 14
4.4 Cwynion dienw a chyfrinachol 15
4.5 Cwynion Grŵp 15
4.6 Cwynion yn ymwneud ag ymddygiad gan staff a myfyrwyr 16
4.7 Cwynion am Undeb y Myfyrwyr 16
4.8 Cwynion dibwys, maleisus neu flinderus 16
5. Y Drefn Gwyno 17
5.1 Trosolwg 17
5.2 Cam 1 - Datrysiad Cynnar 17
5.3 Cyfryngu 19
5.4 Cam 2 — Cwyn Ffurfiol 20
5.4.1 Panel Cwynion Ffurfiol 21
5.4.2 Cyfrifoldebau'r Panel Cwynion Ffurfiol 22
6. Cam 3 — Adolygiad 23
6.1 Sail 23
6.2 Cyflwyniad 23
7. Cofnodion, monitro a dysgu 23
7.1 Cadw cofnodion 23
7.2 Monitro a dadansoddi cydraddoldeb 24
7.3 Adolygu 24
Polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig 24

RHAN A - Canllawiau i Fyfyrwyr i'r Weithdrefn Hon

Beth yw'r weithdrefn hon?

Mae'r weithdrefn hon yn esbonio beth i'w wneud os ydych chi'n anfodlon â rhywbeth y mae'r Brifysgol wedi'i wneud neu heb ei wneud, neu â safon gwasanaeth a ddarperir gan neu ar ran y Brifysgol. Gallai cwyn ymwneud, er enghraifft, ag ansawdd addysgu neu wasanaeth arall, â chyfleusterau neu adnoddau dysgu, neu â'r Brifysgol yn methu â dilyn un o'i phrosesau ei hun.

Ymdrinnir â rhai pryderon o dan weithdrefnau eraill. Ymdrinnir ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Bwrdd Arholi o dan y Weithdrefn Apelio Academaidd; her i benderfyniad derbyn o dan y Polisi Derbyniadau; a honiadau bod myfyriwr arall wedi torri'r rheolau o dan y Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr. Os byddwch chi'n codi rhywbeth sy'n perthyn i ryw bolisi arall, bydd y Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr yn dweud wrthych chi pa weithdrefn sy'n berthnasol ac yn eich helpu i godi'r pryder yn y ffordd gywir.

Canllaw cyflym: yr hawliau, y camau a'r amserlenni ar yr olwg gyntaf

Cam	Beth sy'n digwydd	Amserlen
Cam 1 — Datrysiad Cynnar	Mae Swyddog Ymchwilio yn adolygu'r gŵyn ac yn cysylltu â chi. Efallai y gofynnir i chi gyfarfod yn anffurfiol. Gellir datrys materion bach yma.	Codwch y mater cyn gynted â phosibl a fan bellaf o fewn 3 mis i'r mater godi. Canlyniad fel arfer o fewn 20 diwrnod gwaith.
Cam 2 — Cwyn Ffurfiol	Os na ellir datrys y mater yng Ngham 1, neu os nad ydych yn fodlon ar y canlyniad, gallwch uwchgyfeirio'r mater i'w ystyried yn ffurfiol. Penodir Uwch Swyddog Ymchwilio i ymchwilio i'ch cwyn.	Uwchgyfeirio o fewn 10 diwrnod gwaith i Gam 1: Canlyniad Datrysiad Cynnar. Canlyniad fel arfer o fewn 20 diwrnod gwaith.
Cam 3 — Adolygiad (Mewnol)	Os ydych chi'n anghytuno â'r canlyniad a bod sail i adolygu'r gŵyn, bydd aelod uwch o staff na fu'n rhan o'r broses flaenorol yn adolygu'r penderfyniad o dan Weithdrefn Adolygu Penderfyniadau'r Brifysgol. Dyma'r cam mewnol olaf ar gyfer cwynion, nid ailwrandawiad o'ch cwyn.	Mae angen gofyn am hyn o fewn 10 diwrnod gwaith i Gam 2: Canlyniad Cwyn Ffurfiol.

Adolygiad Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA)	Os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl y penderfyniad mewnol terfynol, byddwch yn derbyn llythyr Cwblhau Gweithdrefnau a gallwch ofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (yr ombwdsmon addysg uwch annibynnol) adolygu'ch cwyn. Os dewiswch beidio â chael adolygiad pan fo hynny ar gael, gallwch ofyn am lythyr Cwblhau Gweithdrefnau, a fydd yn egluro bod gweithdrefnau mewnol y Brifysgol wedi'u cwblhau.	Ceir Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau fel arfer o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl y penderfyniad mewnol terfynol. Rhaid cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol o fewn 12 mis i'r Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

Eich hawliau allweddol drwy gydol y weithdrefn hon

- Gallwch wneud cwyn heb ofni dial - ni fydd unrhyw fyfyriwr dan anfantais, yn academaidd nac fel arall, am wneud cwyn yn ddidwyll.
- Byddwch yn cael gwybod yn glir sut y bydd eich cwyn yn cael ei thrin a than ba weithdrefn.
- Gwneir penderfyniadau ar safon prawf sifil - yn ôl yr hyn sy'n debygol (beth sy'n fwy tebygol na pheidio), yn seiliedig ar asesiad teg a diduedd o'r dystiolaeth sydd ar gael.
- Cewch resymau ysgrifenedig clir dros y canlyniad ym mhob cam ffurfiol.
- Gall cyfaill, perthynas neu gynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr fynd efo chi i unrhyw gyfarfod; gall cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr siarad ar eich rhan gyda'ch caniatâd.
- Gwneir addasiadau rhesymol os ydych chi'n anabl, fel y gallwch chi gymryd rhan lawn yn y broses.
- Ymdrinnir â'ch cwyn yn gyfrinachol, gyda gwybodaeth yn cael ei rhannu dim ond gyda'r rhai sydd ei hangen i ddelio â'r mater.
- Disgwylir i bawb sy'n gysylltiedig ymddwyn ag urddas a pharch, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Mae gennych yr hawl i symud ymlaen i'r cam nesaf os oes gennych sail, ac yn y pen draw i ofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol adolygu eich cwyn unwaith y bydd gweithdrefnau mewnol y Brifysgol wedi'u cwblhau.

Pwy all eich helpu chi?

Gwasanaeth Cefnogi	Sut y gallant helpu
Gwasanaeth Cynghori Undeb y Myfyrwyr	Cyngor annibynnol a chyfrinachol, am ddim, ym mhob cam, a chynrychiolaeth lle bo'n briodol. Dyma lle dylech chi droi yn gyntaf.

	Cyswllt: academicadvice@undebbangor.com
Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr	Gwybodaeth am y weithdrefn a chymorth gweinyddol; yn rheoli Cwynion ac Adolygiadau Ffurfiol. Cyswllt: studentcases@bangor.ac.uk
Y Gwasanaeth Llesiant a Chynwysoldeb	Cefnogaeth emosiynol drwy gydol y broses a chefnogaeth gydag addasiadau rhesymol i'r weithdrefn. Cyswllt: gwasanaethaulles@bangor.ac.uk
Cefnogaeth Gymraeg	Trefniadau ar gyfer cyfieithu a gwrandawiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Am ddim. Cyswllt: studentcases@bangor.ac.uk
Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol	Adolygiad annibynnol unwaith y bydd gweithdrefnau mewnol wedi'u cwblhau. Cyswllt: www.oiahe.org.uk | 0118 959 9813

RHAN B - Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr Llawn

1. Rhagarweiniad a chwmpas

1.1 Diben

Mae'r weithdrefn hon yn bodloni Amod Medr: Gweithdrefnau Cwynion, fel amod parhaus ar gyfer cofrestru ac amod ar gyfer ariannu.

Mae Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr Prifysgol Bangor wedi'i datblygu i adlewyrchu fframwaith yr Ombwdsmon Addysg Uwch a Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Mae'n seiliedig ar *Y Fframwaith Arfer Dda: ymdrin â chwynion myfyrwyr ac apeliadau academaidd* ac yn rhoi sylw i'r cyngor a'r canllawiau ar bryderon, cwynion ac apeliadau a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn *Cod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch,* yn benodol Egwyddor 12.

Diffinnir cwyn fel mynegiad o anfodlonrwydd gan un neu fwy o fyfyrwyr ynghylch rhywbeth mar darparwr wedi ei wneud neu heb ei wneud, neu ynghylch safon gwasanaethau a ddarperir gan y Brifysgol neu ar ei rhan. Gall cwyn ymwneud â, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:

- ansawdd a safon y gwasanaeth a ddarperir gan y Brifysgol, gan gynnwys y ddarpariaeth addysgu a dysgu;
- methu â darparu gwasanaeth fel y'i hysbysebwyd neu fel y'i disgwylir yn rhesymol;
- cyfleusterau neu adnoddau dysgu anaddas;
- methiant y Brifysgol i ddilyn proses weinyddol neu academaidd briodol

Mae Prifysgol Bangor yn cydnabod bod cyfrifoldeb y Brifysgol am safonau academaidd yr holl ddyfarniadau a wneir yn ei henw ac ansawdd y cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr yn ganolog i'r weithdrefn hon.

Dylid darllen y Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr ar y cyd â datganiadau a pholisïau Prifysgolion eraill a allai fod yn berthnasol i'r pryder y mae'r Myfyriwr yn dymuno ei godi, sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Weithdrefn Apelio Academaidd, y Polisi Urddas a Pharch, Rheoliadau Cyffredinol i'r Holl Fyfyrwyr, Cod Ymddygiad Myfyrwyr, Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gynhwysol ar gyfer Myfyrwyr Anabl, Polisi Camymddwyn ac Aflonyddu Rhywiol, Camymddwyn Ymchwil a Chwythu'r Chwiban. Mae dolenni i'r rhain a gwybodaeth gysylltiedig arall ar dudalennau gwe y tîm Cefnogaeth Academaidd yma: https://www.bangor.ac.uk/regulations/index.php.cy .

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'n Myfyrwyr drwy gydol eu cyrsiau astudio hyd at raddio a thu hwnt fel rhan o gymuned Prifysgol Bangor. Mae'r Brifysgol yn annog adborth ar bob agwedd ar y profiad addysgu a dysgu a gwasanaethau eraill a ddarperir gan y Brifysgol. Fodd bynnag, efallai y bydd achlysuron pan fydd lefel y gwasanaeth a dderbynnir yn is na'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol.

Nodau'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr yw:

- datrys cwynion mewn modd amserol, effeithiol a theg;
- datrys cwynion yn y maes lle maen nhw'n codi;
- gwella gwasanaethau a phrofiad myfyrwyr.

Dylid ystyried dewisiadau ar gyfer datrys yn gynnar, fel cyfryngu (trafodaeth wedi'i hwyluso) (gweler adran 5.3), lle bynnag y bo modd. Cynhelir ymchwiliad teg a thrylwyr i gwynion ffurfiol pan fo angen.

Mae'r weithdrefn hon yn egluro beth y gall myfyrwyr ei ddisgwyl os oes ganddynt bryder neu gŵyn. Bydd y Brifysgol yn gwneud y canlynol:

- yn sicrhau bod ei pholisïau ar ymdrin â phryderon a chwynion myfyrwyr yn glir
- yn ceisio mynd i'r afael â phroblemau'n gyflym pryd bynnag y bo modd
- yn defnyddio proses ffurfiol os na ellir datrys y mater yn gynnar
- yn darparu atebion pan ganfyddir bod pryderon neu gwynion yn ddilys
- yn ceisio cadw at amserlenni ar gyfer yr holl brosesau a nodir yn y polisi hwn.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i fod yn gynhwysol. Ni ddylid gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn unrhyw berson (Myfyriwr, Staff nac ymwelydd), boed yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, ar sail eu hil, lliw, tarddiad ethnig neu naturiol, neu genedligrwydd, rhyw, statws priodasol, oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, credoau crefyddol neu wleidyddol, sefyllfa economaidd na chefndir troseddol. Ni fydd unrhyw berson yn cael ei wahaniaethu yn ei erbyn nac yn cael ei effeithio'n andwyol am wneud cwyn.

1.2 Cwmpas

Gall holl Fyfyrwyr y Brifysgol ddefnyddio'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr. Rhaid i fyfyrwyr ar gyrsiau sy'n arwain at ddyfarniadau Prifysgol Bangor ond sydd wedi'u lleoli ar gampws sefydliad partner, gwblhau'r weithdrefn Cwynion Myfyrwyr ar gyfer y sefydliad hwnnw yn gyntaf.

At ddibenion y weithdrefn hon, diffinnir myfyriwr fel unrhyw un sydd wedi derbyn lle yn y Brifysgol, sydd wedi cofrestru yn y Brifysgol ar hyn o bryd, neu sy'n gyn-fyfyriwr yn y Brifysgol ar ôl cwblhau neu adael rhaglen o fewn 12 mis i gyflwyno'r gŵyn.

Fel arfer, rhaid gwneud pob cwyn o fewn tri mis i'r pryder godi. Fodd bynnag, gellir derbyn cwynion hwyr lle mae rheswm da.

Gall cyn-fyfyrwyr ddefnyddio'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr i godi cwyn am fater a gododd tra roeddent yn fyfyriwr, ar yr amod bod y gŵyn fel arfer yn cael ei chyflwyno o fewn tri mis i'r mater godi.

Beth na fydd yn cael ei drin o dan y Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr

Apeliadau academaidd neu faterion eraill sy'n ymwneud â phenderfyniadau'r Bwrdd Arholi. Caiff apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Bwrdd Arholi eu rheoli gan y

Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr ac ymdrinnir â nhw o dan y Weithdrefn Apelio Academaidd. Bydd unrhyw gŵyn a wneir o dan y Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr sy'n ymddangos fel apêl academaidd yn cael ei chyfeirio at y Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr i'w hystyried. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y weithdrefn ar gyfer apelio academaidd, cysylltwch â studentcases@bangor.ac.uk a bydd y tîm yn eich cynorthwyo.

Her i benderfyniad derbyn. Dylid codi hyn o dan God 09: Polisi a Chod Ymarfer ar Recriwtio a Derbyniadau Myfyrwyr (Polisi Derbyniadau) i pennaethderbyniadau@bangor.ac.uk

Ni chaiff **cwynion am Bolisïau'r Brifysgol** eu derbyn oni bai bod un neu fwy o elfennau i'r polisi sy'n amlwg yn niweidiol i lawer o Fyfyrwyr. Croesewir adborth ar bolisïau. Dylid anfon sylwadau at studentcases@bangor.ac.uk yn y lle cyntaf. Bydd adborth yn cael ei ystyried yn ystod yr adolygiad polisi nesaf.

Cwynion am faterion sydd eisoes wedi cael eu hystyried neu sy'n cael eu hystyried gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch, llys neu dribiwnlys.

1.3 Diffiniadau

Term	Ystyr yn y weithdrefn hon
Cwyn	Diffinnir cwyn fel mynegiad o anfodlonrwydd gan un neu fwy o fyfyrwyr ynghylch rhywbeth mar darparwr wedi ei wneud neu heb ei wneud, neu ynghylch safon gwasanaethau a ddarperir gan y Brifysgol neu ar ei rhan.
Achwynydd	Mae achwynydd yn cyfeirio at y myfyriwr (neu grŵp o fyfyrwyr) sydd wedi codi pryder neu gŵyn o dan y Weithdrefn hon.
Datrysiad Cynnar	Mae datrysiad cynnar yn cyfeirio at gam cychwynnol y broses lle mae pryderon yn cael eu datrys yn brydlon, yn anffurfiol, ac yn lleol, heb yr angen am ymchwiliad ffurfiol.
Cwyn Ffurfiol	Mae Cwyn Ffurfiol yn cyfeirio at gŵyn sydd wedi mynd y tu hwnt i Ddatrysiad Cynnar ac sydd angen ymchwiliad strwythuredig o dan y weithdrefn hon.
Adolygiad (o benderfyniad)	Mae adolygiad yn cyfeirio at ystyried a wnaed penderfyniad o dan weithdrefn yn unol â'r rheoliadau, y polisïau a'r prosesau perthnasol, ac a oedd yn rhesymol yng ngoleuni'r dystiolaeth sydd ar gael. Nid

Term	Ystyr yn y weithdrefn hon
	ailwrandawiad o'r achos gwreiddiol yw Adolygiad, ond asesiad o'r broses o wneud penderfyniadau a'r canlyniad yn erbyn y sail dros adolygu, fel y nodir yn y weithdrefn hon.
Llythyr Cwblhau Camau Gweithredu	Mae llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn llythyr ffurfiol a gyhoeddir gan y Brifysgol yn cadarnhau naill ai bod y broses fewnol wedi dod i ben neu, lle mae myfyriwr yn dewis peidio â dilyn adolygiad sydd ar gael, nad yw gweithdrefnau mewnol y Brifysgol wedi'u cwblhau. Mae'n darparu gwybodaeth am hawl y myfyriwr i gyfeirio'r mater at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.
Myfyriwr	Mae myfyriwr yn cyfeirio at unrhyw unigolyn sydd wedi derbyn cynnig am le, sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd, neu sydd wedi cwblhau neu wedi tynnu'n ôl o raglen astudio yn ddiweddar, fel y'i diffinnir o fewn cwmpas y weithdrefn hon.
Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr	Mae Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr yn cyfeirio at dîm y Brifysgol sy'n gyfrifol am oruchwylio a gweinyddu'r weithdrefn hon a sicrhau y caiff ei chymhwyso'n gyson ac yn deg.
Swyddog Ymchwilio / Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr	Mae Swyddog Ymchwilio (neu Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr) yn cyfeirio at yr aelod o staff sy'n gyfrifol am ymchwilio i'r achos a gwneud canfyddiadau yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael.
Diffyg / afreoleidd-dra gweithdrefnol	Mae diffyg / afreoleidd-dra gweithdrefnol yn cyfeirio at fethiant gan y Brifysgol i ddilyn ei rheoliadau, ei pholisïau neu ei gweithdrefnau ei hun, a allai fod wedi cael effaith sylweddol ar y canlyniad.
Cyfryngu	Mae cyfryngu yn cyfeirio at broses wirfoddol, wedi'i hwyluso lle mae'r partïon dan sylw yn ceisio datrys pryder trwy drafodaeth strwythuredig, gyda chefnogaeth trydydd parti diduedd.
Cwyn Grŵp	Mae Cwyn Grŵp yn cyfeirio at gŵyn a gyflwynir ar y cyd gan fwy nag un myfyriwr mewn perthynas â'r un mater, lle mae'r grŵp yn enwebu cynrychiolydd i weithredu ar eu rhan.

Term	Ystyr yn y weithdrefn hon
Cwyn Anhysbys	Mae Cwyn Anhysbys yn cyfeirio at gŵyn a gyflwynir heb ddatgelu hunaniaeth y myfyriwr i'r Brifysgol.

2. Egwyddorion cyffredinol

2.1 Tegwch gweithdrefnol

Bydd pob cam o'r weithdrefn hon yn cydymffurfio ag egwyddorion cyfiawnder naturiol:

- Ni fydd unrhyw un sy'n gyfrifol am wneud penderfyniad wedi ymwneud â'r ymchwiliad i'r achos o'r blaen nac â gwrthdaro buddiannau.
- Bydd cyfle teg i'r Achwynydd gyflwyno tystiolaeth ac ymateb i ganfyddiadau'r Brifysgol.
- Yr Achwynydd sy'n gyfrifol am gyflwyno tystiolaeth
- Bydd y Brifysgol yn dod i'w phenderfyniad ar sail asesiad teg a diduedd o'r dystiolaeth sydd ar gael.
- Y safon prawf yw beth sydd fwyaf tebygol; hynny yw, a yw'n fwy tebygol na pheidio bod y materion a godir yn y gŵyn yn wir.
- Rhoddir rhesymau ysgrifenedig clir dros bob penderfyniad, gan gynnwys unrhyw ganlyniad.
- Pan gaiff cwyn ei chadarnhau, bydd y Brifysgol yn ystyried datrysiad priodol a chymesur.

2.2 Cefnogaeth a Chynrychiolaeth

Gall myfyrwyr geisio cefnogaeth ac arweiniad ar unrhyw gam o'r broses gwyno gan Undeb y Myfyrwyr a all ddarparu cyngor annibynnol a, lle bo'n briodol, gefnogi'r Achwynydd drwy gydol y broses gwyno ffurfiol.

Bydd yr Achwynydd ac unrhyw fyfyrwyr eraill sy'n gysylltiedig yn cael gwybod am wasanaethau cymorth mewnol ac allanol perthnasol. Mae hyn yn cynnwys ystyried rhwystrau posibl i ymgysylltu a darparu addasiadau rhesymol ym mhob cam o'r broses.

Mae gan achwynwyr hawl, mewn unrhyw gyfarfod a gynhelir fel rhan o'r weithdrefn gwyno, i gael cwmni un o'r canlynol:

- Ffrind neu berthynas nad yw wedi bod yn rhan o'r mater dan sylw o'r blaen. Eu swyddogaeth yw darparu cefnogaeth foesol; nid oes ganddynt hawl awtomatig i siarad ar ran y myfyriwr. Bydd unrhyw gyfranogiad o'r fath yn ôl disgresiwn y Brifysgol, gan ystyried ffactorau megis cymesuredd, difrifoldeb y mater, a'r effaith ar y myfyriwr.

- Cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr, a all gefnogi'r myfyriwr a, lle bo'n briodol, siarad ar ei ran gyda chaniatâd y myfyriwr.

Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw weithiwr iechyd proffesiynol neu weithiwr cefnogi a fyddai fel rheol yn mynd gyda'r myfyriwr neu a allai fod yn bresennol, yn ôl doethineb y Brifysgol, yn rhan o unrhyw addasiadau rhesymol. Bydd addasiadau rhesymol yn cael eu hystyried fesul achos, a gellir ceisio cyngor gan y Gwasanaeth Llesiant a Chynwysoldeb lle bo angen.

Nid yw'r Brifysgol fel arfer yn caniatáu cynrychiolaeth gyfreithiol o fewn y weithdrefn gwyno. Bydd unrhyw gais am gynrychiolaeth gyfreithiol yn cael ei ystyried yn ôl disgresiwn y Brifysgol.

2.3 Amseroldeb

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall y broses cwynion myfyrwyr roi pwysau mawr ar fyfyrwyr ac mae wedi ymrwymo i ddatrys cwynion yn brydlon. Yr amserlenni targed yw:

- **Cam 1 Datrysiad Cynnar** a **Cam 2 Ffurfiol Cyfunol** o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y gŵyn.
- **Adolygiad Mewnol Cam 3**: ystyriaeth o fewn 20 diwrnod gwaith i'r myfyriwr gyflwyno cais am adolygiad.
- **Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau:** o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl y penderfyniad mewnol terfynol.

Nod y Brifysgol yw cwblhau'r camau ffurfiol ac adolygu o fewn cyfnod arfer dda Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol o 90 diwrnod calendr.

Pan fo mater yn gymhleth, neu pan fo newidiadau yn llwyth gwaith y naill barti neu'r llall na ellid bod wedi'u rhagweld o'r blaen, gellir ymestyn yr amserlenni gyda chytundeb yr holl bartïon.

Rhaid i Fyfyrwyr Rhyngwladol fod yn ymwybodol o oblygiadau mewnfudo os bydd ystyriaeth o'u cwyn yn ymestyn y tu hwnt i'w caniatâd i aros. Fel arfer, ni fyddai angen i Fyfyriwr fod yn bresennol yn gorfforol yn y Brifysgol er mwyn ymchwilio i gŵyn, er y gallai fod angen cymryd rhan mewn cyfweliad ymchwil ar-lein neu ar ryw ffurf arall.

2.4 Addasiadau rhesymol

Bydd y Brifysgol yn gwneud addasiadau rhesymol i unrhyw gam o'r weithdrefn hon i ddarparu ar gyfer myfyrwyr ag anableddau neu nodweddion gwarchodedig eraill o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dylai myfyrwyr sy'n credu bod angen addasiad arnynt gysylltu â'r Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr cyn gynted â phosibl. Bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i ddarparu ar gyfer gofynion penodol unrhyw fyfyriwr. Cedwir cofnod o'r addasiadau a wneir.

Fel egwyddor gyffredinol, ni ddylai myfyrwyr, staff, cynrychiolwyr na mynychwyr wneud recordiad sain na fideo o gyfarfodydd gwaith achos a gynhelir o dan weithdrefnau'r

Brifysgol, oni bai bod y Brifysgol wedi awdurdodi hynny'n benodol ymlaen llaw. Mae hyn yn berthnasol i recordio agored a chudd. Mae canllawiau llawn ynghylch ymateb i geisiadau i recordio cyfarfod, gan gynnwys y broses o wneud penderfyniadau, ar gael yn y Canllawiau ar gyfer Recordio Cyfarfodydd Gwaith Achos Myfyrwyr, a geir gan y Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr.

2.5 Y Gymraeg

Cymraeg
Gall unrhyw fyfyriwr ofyn am gynnal unrhyw gyfarfod, gwrandawiad, neu ohebiaeth o dan y weithdrefn hon yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Gymraeg. Trefnir gwasanaethau cyfieithu gan Dîm Gwaith Achos Myfyrwyr y Brifysgol a byddant yn cael eu darparu am ddim. Dylai myfyrwyr hysbysu'r Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn gwrandawiad wedi'i drefnu.

2.6 Cyfrinachedd a diogelu data

Bydd gwybodaeth am gwynion myfyrwyr yn cael ei chadw'n gyfrinachol a'i rhannu dim ond gyda'r rhai sydd ei hangen at ddiben ymchwilio i'r gŵyn. Bydd y Brifysgol yn prosesu data personol yn unol â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU a'i Pholisi Diogelu Data. Gall hyn gynnwys gwneud nodyn cyfrinachol o'r mater ar FyMangor.

Gellir rhannu manylion cwyn ag unigolion sydd angen yr wybodaeth i weinyddu, ymchwilio, adolygu neu ymateb i'r gŵyn, gan gynnwys staff, myfyrwyr, tystion a thrydydd partïon lle bo'n briodol.

Cyfeiriwch at Hysbysiadau Preifatrwydd y Brifysgol i ddeall sut rydym yn prosesu data personol, a'n sail gyfreithiol dros wneud hynny.

3. Cyfrifoldebau

Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn deall eu rhan yn y broses hon, gan gynnwys y camau gweithredu sy'n ofynnol ganddynt, y disgwyliadau a roddir arnynt, a'r gefnogaeth sydd ar gael wrth baratoi cais am adolygiad.

3.1 Senedd

Mae'r Senedd yn gyfrifol am sicrhau bod y Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr yn unol â Fframwaith Arfer Dda Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

3.2 Rheolwyr

Mae gan y Dirprwy Is-ganghellor/Deoniaid, Penaethiaid Ysgolion, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr Gwasanaeth a Rheolwyr Llinell gyfrifoldeb beunyddiol am oruchwylio gweithrediad y polisi hwn a sicrhau bod holl fyfyrwyr a myfyrwyr diweddar

y Brifysgol yn cael eu cefnogi i godi cwynion am rywbeth y mae'r Brifysgol wedi'i wneud neu heb ei wneud.

3.3 Myfyrwyr

Mae myfyrwyr yn gyfrifol am ymgyfarwyddo â'r polisi hwn a chodi cwynion mewn modd amserol a chan ddarparu tystiolaeth briodol.

3.4 Canlyniadau Diffyg Cydymffurfio

Bydd methu â gweithredu yn unol â'r polisi hwn neu fethu â chydymffurfio ag unrhyw drefniadau a roddwyd ar waith i dderbyn, ymchwilio, monitro ac ymateb i gŵyn gan Fyfyriwr yn cael ei ystyried yn fater difrifol, ac ymdrinnir â hynny o dan y Weithdrefn Ddisgyblu berthnasol ar gyfer myfyrwyr a staff.

Os oes gan fyfyriwr unrhyw bryderon bod y polisi hwn efallai'n cael ei dorri, dylid cyflwyno adroddiad o'u pryderon yn y lle cyntaf ac yn ddi-oed i'r Dirprwy Gofrestrydd Academaidd: Ansawdd a Safonau, a fydd yn dyrannu'r mater i aelod priodol o staff, eu rheolwr llinell neu Ddeon neu Gyfarwyddwr, i ymchwilio iddo.

4. Mathau o Gwynion

4.1 Pan fydd cwyn yn dod o dan un neu fwy o bolisïau

Os bydd Myfyriwr yn codi cwyn neu apêl nad yw'n dod o dan y categori cwyn nac apêl, neu os yw'r pryder yn cynnwys materion cwyn ac apêl, bydd y Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr yn cynghori'r Myfyriwr pa faterion a fydd yn cael eu hystyried o dan ba weithdrefn ac ym mha drefn y cânt eu hystyried. Bydd hyn waeth pa weithdrefn y mae'r Myfyriwr wedi'i defnyddio i godi ei bryder yn ffurfiol.

Gellir rheoli pryder Myfyriwr o dan weithdrefn amgen os yw hynny'n briodol. Gall y Brifysgol benderfynu ystyried pob mater gyda'i gilydd yn enwedig os, er enghraifft, mae canfyddiadau cwyn yn debygol o ddylanwadu ar benderfyniad apêl. Bydd y Myfyriwr yn cael gwybod am unrhyw oblygiadau o ddilyn dwy weithdrefn ar yr un pryd, a gall y Brifysgol atal un weithdrefn wrth aros am ganlyniad y llall.

4.2 Pan dderbynnir cwynion lluosog gan fyfyriwr unigol

Pan fydd Myfyriwr yn codi sawl cwyn sy'n gysylltiedig o ran pwnc, neu oherwydd bod y cwynion wedi'u cyflwyno dros gyfnod bychan amser, gall y Brifysgol benderfynu ystyried yr holl faterion gyda'i gilydd.

Bydd yr Achwynydd yn cael gwybod am unrhyw benderfyniad i uno cwynion.

4.3 Cwynion Trydydd Parti

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i Fyfyrwyr ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Brifysgol wrth godi cwynion. Ni dderbynnir cwynion a wneir gan drydydd partïon ar ran Myfyriwr fel arfer oni bai bod rhesymau dilys pam nad yw Myfyriwr yn gallu ymgysylltu ei hun.

4.4 Cwynion dienw a chyfrinachol

Ni fydd y Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr (neu ei enwebai) yn ymateb i gwynion dienw, ond gellir ymchwilio i faterion a godir mewn cwynion dienw os, ym marn resymol y Brifysgol, o ystyried ffactorau fel cymesuredd, difrifoldeb y mater, a'r effaith ar y myfyriwr, y teimlir y byddai ymchwiliadau o'r fath yn gyfiawn. Mae'r ffactorau a ystyrir yn cynnwys difrifoldeb y mater, y dystiolaeth sydd ar gael ac ystyriaethau diogelu. Gall y Brifysgol hefyd ddefnyddio cwynion dienw i'w helpu i wella ei harferion. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn cydnabod y gallai Myfyrwyr fod eisiau codi pryderon yn gyfrinachol. Mewn achosion o'r fath, bydd y Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr (neu ei enwebai) yn ceisio datrys y mater heb ddatgelu hunaniaeth y Myfyriwr. Rhaid cofio'r canlynol:

- Gall fod yn anodd ymchwilio i gwynion heb ddatgelu hunaniaeth yr Achwynydd.
- Efallai y bydd modd cynnal ymchwiliadau rhagarweiniol heb ddatgelu hunaniaeth yr Achwynydd ond, os yw'r materion a godwyd yn ddifrifol neu os yw'r achos yn gymhleth, efallai y bydd angen adnabod yr Achwynydd os yw'r achos i gael ei ddilyn ymhellach. Mewn achosion o'r fath, bydd y Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr (neu ei enwebai) yn trafod y sefyllfa gyda'r Achwynydd cyn i'r achos fynd yn ei flaen.
- Efallai y bydd y person neu'r adran sy'n destun cwyn yn adnabod yr Achwynydd oherwydd y materion a godwyd.

Gall myfyrwyr hefyd godi pryderon yn fewnol ynghylch camymddwyn drwy Bolisi Datgelu Er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban) y Brifysgol.

4.5 Cwynion Grŵp

Os oes gan grŵp o Fyfyrwyr gŵyn, gall y Myfyrwyr gyflwyno cwyn ar y cyd ac enwebu un Myfyriwr fel eu cynrychiolydd wrth ymchwilio i'r gŵyn, ar yr amod bod pob Myfyriwr yn rhoi eu caniatâd personol o dan ofynion y Ddeddf Diogelu Data ac yn cadarnhau cywirdeb unrhyw dystiolaeth a gwybodaeth a gyflwynir i gefnogi eu cwyn. Os na fydd Myfyriwr yn rhoi caniatâd personol, ni fydd yn cael ei gynnwys yn yr ymchwiliad na'r datrysiad ar y cyd i gŵyn. Pan gyflwynir ac yr ymchwilir i gŵyn ar y cyd, bydd y grŵp yn derbyn ymateb ar y cyd. Ni ellir teilwra canlyniadau ar gyfer cwynion grŵp ar gyfer Myfyrwyr unigol. Lle bo'n briodol, gellir ystyried amgylchiadau unigol ochr yn ochr â chanlyniadau torfol. Os yw Myfyriwr yn ceisio canlyniad unigol, rhaid cyflwyno cwyn unigol.

Yn unol â chanllawiau gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, nid yw'r Brifysgol yn derbyn deisebau na chwynion a bostiwyd ar y cyfryngau cymdeithasol fel cwynion o dan y Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr. Rhaid cyflwyno pob pryder drwy'r broses gwyno fel yr amlinellir yn y weithdrefn hon. Gweler Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Myfyrwyr y Brifysgol am ganllawiau ynghylch rhannu barn ar y cyfryngau cymdeithasol.

Wrth ymchwilio i rai mathau o gwynion, efallai mai dim ond os yw'r Myfyriwr neu'r Myfyrwyr, ac nid eu cynrychiolydd yn unig, yn cymryd rhan mewn cyfarfod ymchwilio y gellir bwrw ymlaen â'r ymchwiliad.

4.6 Cwynion yn ymwneud ag ymddygiad gan staff a myfyrwyr

Bydd honiadau bod Myfyrwyr yn torri'r Rheoliadau Cyffredinol i'r Holl Fyfyrwyr, Cod Ymddygiad Myfyrwyr neu'r Polisi Urddas wrth Weithio ac Astudio yn cael eu cyfeirio at y Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr a fydd yn bwrw ymlaen yn unol â'r Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr.

Dylid codi pryderon ynghylch ymddygiad aelod o staff ar unwaith gydag aelod staff priodol o fewn yr Ysgol/Cyfarwyddiaeth (h.y. Tiwtor Personol) i gefnogi, lle bo'n bosibl ac yn briodol, datrysiad anffurfiol. Lle nad yw hyn yn briodol a/neu os yw Myfyriwr yn parhau i fod yn anfodlon â'r datrysiad anffurfiol, gallant gyflwyno cwyn ffurfiol drwy gysylltu â'r Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr yn casestudents@bangor.ac.uk.

Bydd y gŵyn yn cael ei rhannu ag Adnoddau Dynol a'r Uwch Reolwr perthnasol yn yr Ysgol a/neu'r Gyfarwyddiaeth sydd â chyfrifoldeb am ymateb i'r gŵyn. Bydd yr Uwch Reolwr perthnasol yn adolygu ac yn cynnal unrhyw ymchwiliadau angenrheidiol, gyda chefnogaeth gan adran Adnoddau Dynol y Brifysgol, cyn darparu canlyniad ysgrifenedig i'r gŵyn. (Dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol fod yna Bolisi Urddas wrth Weithio ac Astudio ar wahân ar gyfer staff. Mae'r disgwyliadau proffesiynol a amlinellir yn y polisi hwn yn adlewyrchu'r rhai a amlinellir yn y polisi Urddas a Pharch Myfyrwyr.)

Bydd cwyn am honiad o gamymddwyn rhywiol ac aflonyddu gan fyfyriwr yn cael ei derbyn yn unol â'r Polisi Trais Rhywiol a Domestig i Fyfyrwyr a/neu'r Polisi Aflonyddu ar Fyfyrwyr. Bydd y cwynion hyn yn cael eu hystyried o dan y Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr.

Mae rhagor o gefnogaeth i fyfyrwyr sy'n ymwneud ag adrodd neu weld camymddwyn gan staff neu fyfyrwyr eraill ar gael drwy Wasanaeth Ymateb i Gamymddwyn, Ymddygiad Treisgar ac Aflonyddu y Brifysgol. Wedi'i reoli gan y Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr, mae'r Gwasanaeth yn cynnig ymateb cychwynnol ac yn cyfeirio myfyrwyr at ffynonellau cymorth mewnol ac allanol priodol, a hynny'n ddiduedd.

4.7 Cwynion am Undeb y Myfyrwyr

Dylid codi cwynion sy'n ymwneud â gwasanaethau, cyfleusterau, cymdeithasau a staff Undeb y Myfyrwyr gydag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor, Undeb Bangor yn y lle cyntaf; gellir dod o hyd i fanylion Gweithdrefn Gwynion Undeb y Myfyrwyr ar wefan Undeb Bangor.

Unwaith y bydd ymchwiliad i gŵyn wedi dod i ben gan Undeb y Myfyrwyr, os yw Myfyriwr yn credu nad yw Undeb y Myfyrwyr wedi dilyn ei weithdrefnau ei hun neu wedi gweithredu o fewn ei bolisïau cytunedig, gallant uwchgyfeirio'r gŵyn i'r Brifysgol o fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn y canlyniad ysgrifenedig gan Undeb Bangor drwy anfon e-bost at studentcases@bangor.ac.uk. Derbynnir cwyn os yw'n bodloni'r seiliau a chaiff ei dyrannu i Reolwr Gwaith Achos i gynnal adolygiad.

4.8 Cwynion dibwys, maleisus neu flinderus

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl, gan ystyried ffactorau megis cymesuredd, difrifoldeb y mater, a'r effaith ar y myfyriwr, i wrthod ymchwilio i gŵyn ar unrhyw gam o'r weithdrefn

os yw'n ystyried bod y gŵyn yn cael ei chyflwyno mewn ffordd afresymol neu annheg neu ei bod yn cael effaith negyddol ar staff y Brifysgol. Gall y Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr ofyn i'r myfyriwr gyflwyno ei gŵyn, ac ymgysylltu yn y broses, mewn modd mwy rhesymol.

Os bydd y Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr (neu ei enwebai) yn penderfynu bod cwyn yn rhywbeth y byddai person teg yn ei hystyried yn ddibwys, os yw'n cael ei dilyn mewn ffordd sy'n cael effaith negyddol ddifrifol ar staff neu'r Brifysgol, neu os yw'r Myfyriwr yn ceisio canlyniad sydd heb unrhyw ddiben na gwerth difrifol, caiff y gŵyn ei chau a gellir cymryd camau disgyblu priodol os canfyddir bod y Myfyriwr wedi torri'r Weithdrefn Ddisgyblu Myfyrwyr.

5. Y Drefn Gwyno

5.1 Trosolwg

Bwriad y Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr yw darparu proses symlach gyda phwyslais ar ddatrysiad lleol. Fel arfer, disgwylir i fyfyrwyr gwblhau pob cam mewnol cyn symud ymlaen i'r nesaf, lle mae ganddynt sail dros wneud hynny. Mae gan Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr y Brifysgol dri cham mewnol:

- Datrysiad Cynnar
- Ffurfiol
- Adolygiad Mewnol

Datrysiad Cynnar yw'r cam lle dylid datrys y rhan fwyaf o bryderon yn gyflym ac yn effeithiol, ar yr adeg y gwneir cwyn, neu mor agos â phosibl at yr adeg yna. Gellir defnyddio'r drefn Datrysiad Cynnar ar gyfer materion rhyngbersonol anodd lle gall strategaethau datrysiad cynnar fel cyfryngu fod o fudd.

Caiff Cwynion Ffurfiol eu hymchwilio gan Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr pan fydd Myfyriwr yn dymuno uwchgyfeirio ei gŵyn.

Gall Achwynydd ofyn am adolygiad o'r canfyddiad a gyrhaeddwyd yng Ngham 2. Cynhelir Cam 3 o dan Weithdrefn Adolygu Penderfyniadau'r Brifysgol a dyma'r cam herio mewnol olaf ar gyfer cwynion; nid yw'n bedwerydd cam ychwanegol. Unwaith y bydd yr adolygiad mewnol hwnnw wedi'i gwblhau, bydd Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn cael ei gyhoeddi a gall Achwynydd anfodlon gyfeirio'r mater at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

5.2 Cam 1 - Datrysiad Cynnar

Mae'r Brifysgol yn annog Myfyrwyr i godi unrhyw bryderon sylfaenol yn y lle cyntaf trwy siarad ag aelod o gymuned y Brifysgol. Gallai hynny fod yn dîm eu Rhaglen, Tiwtor Personol neu aelod priodol arall o staff, neu'r Cynrychiolydd Cwrs Myfyrwyr neu gallant geisio cyngor annibynnol gan Undeb y Myfyrwyr drwy e-bostio

academicadvice@undebbangor.com. Gallai pryderon sylfaenol gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Mynediad at fan gwaith tawel
- Cadarnhau dyddiadau cau
- Dewisiadau sydd ar gael ym mwytai'r Brifysgol
- Sicrhau llythyrau at ddibenion Treth y Cyngor

Dylid trafod pryderon mwy difrifol yn y lle cyntaf gyda'r aelod staff sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth (e.e. Arweinydd Rhaglen, Pennaeth yr Ysgol neu wasanaeth arall). Fel arall, gellir trafod y pryderon gyda'r Tiwtor Personol neu'r Uwch Diwtor a all gyfeirio'r claf at yr aelod staff perthnasol. Dylid cyflwyno'r cwynion ar ffurf ysgrifenedig cyn gynted ag y bo modd. Disgwylir y bydd y sawl sy'n derbyn y gŵyn yn ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith, lle bo hynny'n ymarferol bosib. Mae gwybodaeth am wneud cwyn ar gael drwy gysylltu â'r Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr.

Anogir myfyrwyr i ddatrys eu pryderon yn annibynnol gan ddefnyddio'r gwasanaethau cymorth y mae'r Brifysgol yn eu cynnig.

Disgwylir i fyfyrwyr ymgysylltu'n bersonol â'r Brifysgol wrth godi cwyn gan ddefnyddio eu cyfrif e-bost Prifysgol. Os bydd myfyriwr yn gwneud cwyn ar ôl iddo adael y Brifysgol, bydd gofyn iddo wirio ei hunaniaeth.

Mae Datrysiad Cynnar wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â phryderon yn anffurfiol, yn lleol ac yn gyflym. Gellir cysylltu â'r Myfyriwr i benderfynu ar fwy o fanylion am ei achos neu gellir gofyn i aelod perthnasol o staff weithio gyda'r Myfyriwr yn uniongyrchol.

Rhaid i'r ymateb i'r Myfyriwr gael ei gefnogi gan ganlyniad ysgrifenedig a anfonir drwy e-bost. Os oes angen cyfryngu, os yw'n briodol ac ar gael yn ystod y cam Datrysiad Cynnar, gellir archwilio hyn ar y cyd â'r Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr.

Y nod yn y cam Datrysiad Cynnar yw cyrraedd canlyniad y mae'r ddwy ochr yn cytuno arno cyn i'r pryder gynyddu i'r cam Ffurfiol. Gallai enghreifftiau o sut y gallai'r Brifysgol ddelio â phryderon Myfyrwyr yn y Datrysiad Cynnar fod:

- Dangos cydymdeimlad a dealltwriaeth
- Ymddiheuro lle mae'n briodol gwneud hynny
- Gwrando ar Lais Myfyrwyr
- Egluro'r rhesymau pam y gwnaed penderfyniadau
- Awgrymu atebion
- Ystyried cyfryngu lle bo'n briodol

Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir delio â chwynion yn ystod y cam Cwyn Ffurfiol heb fynd trwy'r broses Datrysiad Cynnar. Bydd Dirprwy Gofrestrydd Academaidd y Brifysgol yn penderfynu fesul achos a yw'n briodol cychwyn cwyn yn ystod y cam Cwyn Ffurfiol. Mae'r penderfyniad hwn yn derfynol.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i geisio datrys pryderon er mwyn sicrhau canlyniad sy'n fuddiol i'r ddwy ochr. Mae'r Brifysgol yn cydnabod nad yw'r canlyniad i'r Myfyriwr weithiau'n cyfateb i'r canlyniad disgwyliedig, ond bydd y Brifysgol yn ymdrechu i ddarparu rhesymeg dros ei phenderfyniadau. Gall Myfyriwr symud ei gŵyn ymlaen i'r Cam Ffurfiol os yw'n credu:

- nad yw'r broses Datrysiad Cynnar wedi'i dilyn yn gywir
- bod tystiolaeth ar gael nawr nad oedd ar gael o'r blaen; neu
- os nad ydyn nhw'n fodlon â'r ymateb datrys mewnol/cynnar.

Gall myfyrwyr uwchgyfeirio'r gŵyn i Gŵyn Ffurfiol drwy'r Ddesg Gymorth Gwaith Achos Myfyrwyr.

5.3 Cyfryngu

Mae cyfryngu yn broses wirfoddol a chyfrinachol lle mae cyfryngwr hyfforddedig, diduedd yn helpu'r rhai sy'n ymwneud â chwyn i ddeall safbwyntiau ei gilydd ac i geisio dod o hyd i ddatrysiad sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr. Y partïon i'r anghydfod, nid y cyfryngwr, sy'n penderfynu a ellir datrys y mater ac ar ba delerau.

Gall y myfyriwr ofyn am gyfryngu neu gall y Brifysgol ei gynnig ar unrhyw gam, naill ai cyn cyflwyno cwyn neu yn ystod unrhyw gam o'r Weithdrefn hon. Dim ond pan fydd pob parti yn cytuno i gymryd rhan y bydd yn bwrw ymlaen, a gall unrhyw barti wrthod ymuno â chyfryngu, neu dynnu'n ôl o gyfryngu ar unrhyw adeg heb i hyn gyfrif yn eu herbyn wrth drin y gŵyn. Ni fydd cyfryngu yn briodol ym mhob achos; er enghraifft, ni fydd fel arfer yn addas ar gyfer adroddiadau am aflonyddu neu gamymddwyn rhwng myfyrwyr neu rhwng myfyrwyr a staff, a fydd yn cael eu trin o dan y weithdrefn berthnasol.

Bydd cyfryngwyr yn ddiduedd ac wedi'u hyfforddi neu eu hachredu'n briodol, a gellir eu dewis o gronfa o gyfryngwyr mewnol hyfforddedig neu, lle mae'r amgylchiadau'n ei gwneud yn briodol, cyfryngwr annibynnol allanol.

Pan fydd cyfryngu yn cael ei gychwyn yn ystod camau ffurfiol y Weithdrefn hon, bydd yr amserlenni perthnasol yn cael eu hatal am gyfnod y cyfryngu a chytunir ar amserlenni diwygiedig gyda'r partïon. Bydd cynnydd y gŵyn yn ailddechrau unwaith y bydd y cyfryngu wedi dod i ben.

Mae cyfryngu yn gyfrinachol. Ni fydd trafodaethau a gynhelir yn ystod y cyfryngu yn cael eu datgelu y tu allan i'r broses nac yn cael eu dibynnu arnynt mewn unrhyw gam dilynol o'r Weithdrefn hon, ac ni fydd unrhyw gofnod o gynnwys y cyfryngu yn cael ei gadw ar ffeil y Myfyriwr. Nid yw hyn yn effeithio ar rwymedigaethau'r Brifysgol lle mae dyletswyddau diogelu, cyfreithiol neu reoleiddiol yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu.

Cyrhaeddir unrhyw benderfyniad a gyrhaeddir drwy gyfryngu trwy gytundeb y partïon ac nid yw'n cael ei orfodi gan y cyfryngwr. Lle mae angen cymeradwyaeth ar gyfer penderfyniad arfaethedig, bydd y Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr yn ei gyfeirio at y Swyddog perthnasol i'w gymeradwyo ar ran y Brifysgol ac at y myfyriwr i'w gytuno. Dylai'r Myfyriwr

gadarnhau ei gytundeb o fewn 10 diwrnod gwaith; os na dderbynnir ymateb o fewn y cyfnod hwn, ystyrir nad yw'r penderfyniad arfaethedig wedi'i gytuno.

Pan nad yw cyfryngu'n arwain at ddatrysiad y cytunir arno, neu pan fydd y naill barti neu'r llall yn tynnu'n ôl, bydd y gŵyn yn parhau i gael ei hystyried o dan y cam perthnasol o'r Weithdrefn hon. Nid yw cyfryngu yn dileu hawl y Myfyriwr i fynd â'u cwyn drwy'r camau ffurfiol ac adolygu, na'u hawl, yn dilyn y penderfyniad mewnol terfynol, i dderbyn llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, y mae'r Brifysgol yn gobeithio ei gyhoeddi o fewn 20 diwrnod gwaith, ac i gyfeirio'r mater at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch. Gall myfyriwr sy'n dewis peidio â dilyn adolygiad sydd ar gael (neu nad yw'n bodloni'r gofynion ar gyfer un) ofyn am lythyr Cwblhau Gweithdrefnau; bydd y llythyr yn egluro nad yw gweithdrefnau mewnol y Brifysgol wedi'u disbyddu ond eu bod yn cael eu hystyried wedi'u cwblhau.

5.4 Cam 2 — Cwyn Ffurfiol

Bydd unrhyw gŵyn sy'n cael ei huwchgyfeirio i'r cam Ffurfiol yn cael ei hasesu i ddechrau gan y Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr. Bydd yr asesiad cychwynnol yn cynnwys gwirio bod y gŵyn wedi'i chyflwyno o fewn yr amserlenni cyhoeddedig, gan ddefnyddio'r weithdrefn gywir, yn y diwyg cywir a chyda'r holl dystiolaeth a nodwyd wedi'i chyflwyno. Bydd yr asesiad cychwynnol hwn (brysbennu) yn arwain at gyfleu un o'r canlyniadau canlynol i'r myfyriwr o fewn 5 diwrnod gwaith i dderbyn cwyn i'w hystyried ar y cam hwn:

- Atgyfeirio at weithdrefn wahanol (er enghraifft at y broses Apeliadau Academaidd).
- Atgyfeirio at Ddatrysiad Cynnar (er enghraifft os nad yw'r cam hwn wedi'i geisio).
- Gall y Myfyriwr neu'r Brifysgol ofyn am atgyfeiriad at gyfryngu (er enghraifft lle bydd hyn yn fwy tebygol o arwain at gytundeb cyflym a chydfuddiannol).
- Atgyfeirio at ymchwiliad ffurfiol gan Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr (neu ei enwebai dynodedig).
- Gwrthod y gŵyn (er enghraifft oherwydd cyflwyno'n hwyr neu nad yw'r sail dros uwchgyfeirio'r gŵyn wedi'u bodloni).

Nid yw Cam 2 - Cwyn Ffurfiol yn caniatáu ychwanegu cwynion ychwanegol nad ydynt wedi'u codi o'r blaen yng Ngham 1 - Datrysiad Cynnar.

Os gwrthodir y gŵyn, bydd y Brifysgol yn anfon llythyr Cwblhau Gweithdrefnau o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl y penderfyniad mewnol terfynol a bydd y mater yn cael ei ystyried wedi'i gau. Bydd y Brifysgol hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r Myfyriwr am Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

Os ystyrir bod cwyn yn gymwys i gael ei hymchwilio ymhellach fel Cwyn Ffurfiol, caiff ei dyrannu i Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) nad yw wedi bod yn rhan o'r mater o'r blaen i ymchwilio iddi. Lle bo'r Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr yn ei ystyried yn briodol, gall y Brifysgol ethol arbenigwr allanol i weithredu fel y Swyddog Gwaith Achos.

Bydd y myfyriwr yn cael gwybod pwy yw'r Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr a neilltuwyd iddo a pha mor hir y disgwylir i'r ymchwiliad ei gymryd. Dylid cwblhau Cam Ffurfiol Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr y Brifysgol o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl i'r gŵyn gael ei hystyried yn gymwys i'w hymchwilio.

Gall y Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr y dynodwyd y gŵyn iddo gysylltu â'r Myfyriwr, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, MS Teams neu mewn ffordd arall, i gadarnhau diben a chwmpas eu hymchwiliad er mwyn rheoli disgwyliadau ynghylch canlyniadau posibl. Yn dilyn unrhyw gyfathrebu, bydd yr aelod staff a neilltuwyd iddo yn cadarnhau manylion y drafodaeth drwy ysgrifennu at y Myfyriwr.

Fel arfer, cynigir cyfle i'r myfyriwr gyfarfod â'r Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr i drafod ei gŵyn. Mae cymryd rhan mewn cyfarfod o'r fath yn gwbl ddewisol, ac nid oes gofyn i'r Myfyriwr ymgysylltu â'r Swyddog Ymchwilio yn y ffordd hon. Lle trefnir cyfarfod, gall ddigwydd naill ai wyneb yn wyneb neu drwy ddulliau rhithwir (er enghraifft, drwy blatfform cyfarfodydd ar-lein), yn dibynnu ar ddewis y Myfyriwr a phryd mae ar gael. Bydd y Brifysgol yn gwneud ymdrechion rhesymol i ddarparu ar gyfer ffurf ddewisol y Myfyriwr lle bynnag y bo'n ymarferol.

Bydd y Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Myfyriwr a gall hefyd geisio gwybodaeth berthnasol ychwanegol lle bo angen er mwyn sicrhau ymchwiliad teg a thrylwyr. Gall hyn gynnwys gofyn am wybodaeth gan staff perthnasol a/neu fyfyrwyr eraill, tystiolaeth berthnasol arall a/neu adolygu cofnodion y Brifysgol. Wrth wneud penderfyniad, bydd y Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr yn edrych ar unrhyw atebion a awgrymwyd yn ystod y cyfnod Datrysiad Cynnar ac yn penderfynu a oeddent yn rhesymol o ystyried y sefyllfa.
Bydd y Swyddog Ymchwilio yn sicrhau bod y penderfyniad yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth berthnasol sydd ar gael.

Lle mae manylion penodol y Gŵyn Ffurfiol yn parhau i fod yn aneglur, gall y Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr ofyn i'r myfyriwr egluro ymhellach a/neu gyflwyno tystiolaeth ychwanegol. Bydd y Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr yn argymell canlyniad(au) y Gŵyn Ffurfiol yn dilyn eu hasesiad o'r dystiolaeth sydd ar gael. Gwneir penderfyniadau ar sail tebygolrwydd, yn seiliedig ar asesiad diduedd o'r dystiolaeth sydd ar gael, a chyda rhesymau clir yn cael eu darparu i gefnogi'r canlyniad.

Bydd y Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr yn ysgrifennu adroddiad ('Adroddiad') gyda'i ganfyddiadau ac unrhyw argymhellion i'w cyflwyno i'r Panel Cwynion Ffurfiol.

5.4.1 Panel Cwynion Ffurfiol

Mae'r Panel Cwynion Ffurfiol yn ystyried cwynion sydd wedi'u huwchgyfeirio o'r Cyfnod Datrys Cynnar neu sydd wedi mynd drwy'r broses honno. Diben y Panel Cwynion Ffurfiol yw caniatáu i'r cam ymchwilio ffurfiol gael ei gynnal gan Banel a gyfansoddwyd yn arbennig lle bo'n briodol. Prif nod y Panel hwn yw datrys cwynion yn gyflym, lle bo modd, os yw'r Panel o'r farn nad oes angen ymchwiliad estynedig.

Mae'r Panel Cwynion Ffurfiol yn gyfrifol am benderfynu a oes ganddo ddigon o wybodaeth i ddelio â'r gŵyn yn deg, yn rhesymol ac yn sensitif.

Efallai y bydd y Panel hwn yn cael ei drefnu i gyfarfod yn achlysurol i adolygu Cwynion Ffurfiol. Fel arfer, bydd y cyfarfodydd ar-lein.

5.4.2 Cyfrifoldebau'r Panel Cwynion Ffurfiol

Yn dilyn ymchwiliad i gŵyn gan Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr, bydd crynodebau ac argymhellion achosion cwynion yn cael eu cyflwyno gan aelodau'r Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr i'r Panel; bydd y Panel hwn yn cadarnhau a/neu'n herio'r rhain yn ôl yr angen.

Bydd y Panel yn darparu penderfyniad, a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, a fydd yn sail i Adroddiad Canlyniad y Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr i'r myfyriwr.

Rhaid i benderfyniadau'r Panel hwn gael eu gwneud trwy fwyafrif. Y cworwm ar gyfer y Panel yw tri aelod.

Mae'r Panel Cwynion Ffurfiol yn cynnwys yr aelodau canlynol nad ydynt wedi bod yn rhan o unrhyw gam blaenorol o'r broses hon:

- Dirprwy Gofrestrydd Academaidd (Ansawdd a Safonau) (Cadeirydd)
- Dirprwy Gofrestrydd Academaidd (Gweinyddiaeth a Chefnogi Busnes) Dirprwy Gadeirydd
- Un Cyfarwyddwr Cofrestrfa arall
- Un Cyfarwyddwr Addysg a Phrofiad Myfyrwyr
- Rheolwr y Gofrestrfa: Gwaith Achos Myfyrwyr
- Aelod o'r Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr (Ysgrifennydd Cofnodion)

Gall y Panel Cwynion Ffurfiol benderfynu:

a. nid oes digon o wybodaeth i ddod i benderfyniad, ac i ofyn am wybodaeth ychwanegol; neu
b. mae'r gŵyn yn amhriodol i'w hystyried gan y Panel gan ei bod angen ymchwiliad pellach ac felly dylid ei chyfeirio'n ôl i'w hymchwilio gan Swyddog Gwaith Achos Myfyrwyr (neu ddirprwy); neu
c. nid yw'r gŵyn wedi cael ymateb priodol yn y cam anffurfiol a dylid ei chyfeirio at y Pennaeth Gwasanaeth priodol i'w datrys; neu
ch. mae'r gŵyn eisoes wedi derbyn ymateb priodol, ac ni chymerir unrhyw gamau pellach; neu
e. a ddylid cadarnhau'r gŵyn (yn rhannol neu'n llawn) neu ei gwrthod; ac os felly
f. pa ganlyniad sy'n briodol ac yn rhesymol yng nghyd-destun unrhyw agwedd ar y gŵyn sydd wedi'i chadarnhau.

Mae'r Panel hwn yn sicrhau y cedwir cofnodion cywir o'r cyfarfod. Bydd y Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr yn gyfrifol am rannu'r cofnodion gydag aelodau'r Panel, ac am sicrhau y cwblheir unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod.

Bydd y Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr yn ysgrifennu at y Myfyriwr gyda chanlyniad y Gŵyn Ffurfiol, fel arfer o fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn y gŵyn, gan egluro'r rhesymau dros y canlyniad a darparu crynodeb o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn y broses o wneud penderfyniadau.

Pan fydd myfyriwr wedi derbyn canlyniad yn ystod y cam Cwyn Ffurfiol ac nad yw'n gymwys i ofyn am Adolygiad, neu'n dewis peidio â dilyn Adolygiad sydd ar gael o fewn yr amserlen benodedig, caiff lythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Nod y Brifysgol yw cyhoeddi'r llythyr o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl y penderfyniad mewnol terfynol. Os yw myfyriwr yn dewis peidio â chael adolygiad pan fo hynny ar gael, bydd y llythyr yn egluro bod gweithdrefnau mewnol y Brifysgol wedi'u cwblhau. Bydd y llythyr yn rhoi manylion ynghylch sut i gyfeirio'r mater at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

6. Cam 3 — Adolygiad

6.1 Sail

Gall myfyriwr ofyn am adolygiad o ganlyniad Ymchwiliad Cam 2 ar sail un neu fwy o'r seiliau canlynol:

- Anghysondeb gweithdrefnol: ni ddilynwyd y broses a ddisgrifiwyd ac a ddefnyddiwyd i gyrraedd y penderfyniad gwreiddiol yn briodol.
- Afresymoldeb: roedd y penderfyniad a/neu'r canlyniad yn afresymol neu heb ei gefnogi gan ffeithiau'r achos.
- Gwybodaeth neu dystiolaeth newydd: mae gwybodaeth neu dystiolaeth berthnasol newydd a allai wneud gwahaniaeth i'r canlyniad na ellid bod wedi'i darparu'n rhesymol ar yr adeg y cafodd yr achos gwreiddiol ei ystyried.

Nid yw anfodlonrwydd â'r canlyniad yn unig, heb sail wedi'i nodi, yn ddigonol i apêl fynd yn ei blaen.

6.2 Cyflwyniad

Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno cais am adolygiad o benderfyniad a wnaed o dan Cam 2 o'r weithdrefn hon i'r Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y penderfyniad.

Bydd y cais yn cael ei ystyried o dan Weithdrefn Adolygu Penderfyniadau'r Brifysgol. Mae'r broses honno'n ffurfio Cam 3 a'r cam herio mewnol olaf ar gyfer cwynion; nid yw'n apêl ar wahân nac yn bedwerydd cam ychwanegol.

7. Cofnodion, monitro a dysgu

7.1 Cadw cofnodion

Bydd cofnodion o gwynion a'u canlyniadau'n cael eu cadw'n ddiogel gan y Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr yn unol ag Amserlen Cadw Cofnodion a Data'r Brifysgol. Fel rheol, bydd

cofnodion canlyniadau yn cael eu cadw ar ffeil y myfyriwr am 6 blynedd o ddyddiad y penderfyniad terfynol.

7.2 Monitro a dadansoddi cydraddoldeb

Bydd y Brifysgol yn monitro gweithrediad y weithdrefn hon yn flynyddol, gan gwahanu data yn ôl nodweddion gwarchodedig yn unol â'i rhwymedigaethau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac amodau cyfle cyfartal Medr. Bydd canlyniadau'r monitro yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd, y Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr, y Senedd, y Bwrdd Gweithredol a Chyngor y Brifysgol a'u defnyddio i nodi unrhyw faterion systemig neu anghenion hyfforddi.

7.3 Adolygu

Bydd y weithdrefn hon yn cael ei hadolygu o leiaf bob tair blynedd, ac ym mhob achos yn dilyn:

- newid i amodau cofrestru Medr (rhaid i adolygiad gael ei sbarduno gan unrhyw ddiweddariad i amodau darparwr cofrestredig Medr, o 1 Awst 2026);
- newid mewn deddfwriaeth berthnasol neu ganllawiau Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol;
- patrwm arwyddocaol o achosion sy'n dynodi problem systemig;
- unrhyw benderfyniad gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol sy'n nodi bod yna le i wella'r weithdrefn hon.

Polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig

Dogfen	Perthynas â'r weithdrefn hon
Gweithdrefn Uniondeb Academaidd	Yn llywodraethu camymddygiad academaidd.
Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer	Yn berthnasol i fyfyrwyr ar raglenni a reoleiddir yn broffesiynol; gall ddilyn neu redeg ochr yn ochr â'r weithdrefn hon.
Polisi Aflonyddu a Gwahaniaethu	Caiff ymddygiad sy'n cynnwys aflonyddu neu wahaniaethu ei reoli o dan y weithdrefn hon ac mae'r Polisi yn ei lywio.
Gweithdrefn Disgyblu Staff	Yn berthnasol lle mae aelod o staff yn ymwneud â chamymddwyn honedig.
Trefn Disgyblu Myfyrwyr	Yn llywodraethu camymddygiad anacademaidd.

Cefnogaeth ar gyfer y Weithdrefn Astudio	Gall fod yn fwy priodol na chamau disgyblu lle mae ymddygiad yn gysylltiedig â mater iechyd neu anabledd.
Cod Ymddygiad Myfyrwyr	Yn nodi safonau ymddygiad disgwyliedig; rhaid ei ddarllen ochr yn ochr â'r weithdrefn hon.
Polisi Diogelu Data	Yn llywodraethu'r ffordd y caiff data personol ei drin drwy gydol y broses gwyno.
Polisi'r Iaith Gymraeg	Yn sail i'r hawliau iaith a nodir yn adran 2.5.